

Polisi Pobl Ifanc

Corff Cymeradwyo	<i>Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd</i>
Dyddiad Cymeradwyo	<i>Tachwedd 2017</i>
Perchennog y Polisi / Cyfarwyddyd	<i>Rheolwr Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd</i>
Cyswllt y Polisi / Cyfarwyddyd	<i>Tîm Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd</i> hasstaff@aber.ac.uk neu 01970 62(2073)
Statws y Polisi / Cyfarwyddyd	<i>Diwygiedig</i>
Cyfeirnod	<i>P011</i>
Fersiwn	<i>V2.0</i>
Dyddiad Adolygu	<i>Bob 3 Mlynedd</i>

1.0 Cyflwyniad:

- 1.1 Yn unol â Pholisi Iechyd a Diogelwch Prifysgol Aberystwyth, mae'r Brifysgol yn cydnabod ei dyletswydd estynedig i sicrhau lles a diogelwch pobl ifainc ar dir neu eiddo'r Brifysgol, neu wrth iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n cael eu harwain gan y Brifysgol. Rhaid i bawb sy'n ymwneud, i ba bynnag raddau, â goruchwyllo neu reoli pobl ifainc roi ystyriaeth i'r ddyletswydd estynedig yma, a hefyd wrth iddynt gynnal asesiadau risg.
- 1.2 Mae PA wedi ymrwymo i ddarparu amgylchfyd diogel ar gyfer ei holl weithwyr, myfyrwyr a'r bobl hynny sy'n defnyddio ei chyfleusterau a'i gwasanaethau.
- 1.3 Mae PA yn cydnabod y gallai fod angen gofal ychwanegol ar bobl ifainc yn unol â'i dyletswyddau statudol a dyletswydd gofal y gyfraith gyffredin.

2.0 Cwmpas:

- 2.1 Mae gan Brifysgol Aberystwyth ddyletswydd i ofalu yn ôl Adran 3 Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc, 1974 ac Adran 19 Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith, 1999, i sicrhau bod pobl ifainc sy'n cael eu heffeithio gan weithgareddau PA yn cael eu diogelu'n briodol ar dir neu eiddo PA, neu wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n cael eu harwain gan y Brifysgol, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol.
- 2.2 Rhaid sicrhau amgylchfyd diogel a chefnogol i holl staff, myfyrwyr ac ymwelwyr PA.
- 2.3 Amddiffyn pobl ifainc sy'n cael eu heffeithio gan weithgareddau PA rhag mathau posibl o gam-drin.
- 2.4 Diogelu aelodau staff PA rhag cyhuddiadau afresymol.
- 2.5 Nodi cyfrifoldeb unigolion a'u dyletswydd statudol tuag at bobl ifainc dan eu gofal ym Mhrifysgol Aberystwyth.
- 2.6 Sefydlu nifer o is-godau ymarfer, gweithdrefnau a chyfarwyddyd sy'n berthnasol i weithgareddau PA a all fod yn cynnwys ymwneud â phobl ifainc.
- 2.7 Cydymffurfio â Deddfau Atebolwydd Meddianwyr 1957 a 1984.
- 2.8 Rhaid cydymffurfio â pholisiau a gweithdrefnau lleol yn ogystal â'r Polisi hwn (Adran 20).

3.0 Diffiniadau:

- 3.1 **Staff:** Unigolion sy'n cael eu cyflogi gan Brifysgol Aberystwyth.
- 3.2 **Myfyrwyr:** Unigolyn sydd wedi'i gofrestru ar hyn o bryd ar gyfer derbyn addysg ym Mhrifysgol Aberystwyth.
- 3.3 **Person Ifanc:** Unigolyn sy'n 17 neu'n iau.
- 3.4 **Tir y Brifysgol:** Yr holl adeiladau, tiroedd, ffyrdd, cerbydau a mathau eraill o gludiant sy'n eiddo i Brifysgol Aberystwyth neu sy'n cael eu rheoli ganddi.

4.0 Swyddogaethau a Chyfrifoldebau:

- 4.1 Dirprwy Is-Ganghellor y Cyfadran/Pennaeth yr Adran Gwasanaeth Proffesiynol: Yn gyfrifol am weithredu'r Polisi hwn o ddydd i ddydd. Dylent sicrhau bod dulliau priodol yn eu lle ar gyfer gwneud yn sicr fod asesiadau risg yn cael eu cynnal a bod mesurau rheoli addas a digonol yn eu lle ac yn cael eu gweithredu; dylid cadarnhau hynny cyn gadael i unrhyw bobl ifainc



ddod i'r ardal sydd dan eu rheolaeth. Dylid hysbysu oedolyn/oedolion cyfrifol ynghylch canlyniadau'r asesiadau risg a'r mesurau diogelwch sydd i'w gweithredu er mwyn sicrhau iechyd a diogelwch y person ifanc / y bobl ifainc.

4.2 Sefyllfaoedd brys:

4.2.1 Gall fod sefyllfaoedd brys yn codi lle bydd rhieni neu warcheidwaid, staff a myfyrwyr yn wynebu problemau gofal plant. Dylai'r achlysuron hynny fod yn brin ac yn eithriadol. Os bydd sefyllfa o'r fath yn codi, dylid dilyn y drefn isod:

4.2.1.1 Cyfrifoldeb eglur yr unigolyn cyfrifol fydd gwneud Dirprwy Is-Ganghellor y Cyfadran/ Pennaeth yr Adran Gwasanaeth Proffesiynol yn ymwybodol o bresenoldeb y person ifanc, cyn i hynny ddigwydd, lle bo hynny'n bosibl, ac i drafod yr agweddau diogelwch gydag ef/gyda hi bryd hynny.

4.2.1.2 Efallai bydd gofyn i Dirprwy Is-Ganghellor y Cyfadran/Pennaeth yr Adran Gwasanaeth Proffesiynol ymynghori â'r Cydgysylltydd Iechyd a Diogelwch, y Swyddog Diogelwch Biolegol, y Goruchwyliwr Amddiffyn rhag Ymbelydredd (os yw'n berthnasol) neu Swyddfa Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd y Brifysgol, ymhlith eraill.

4.2.1.3 Os nad yw Dirprwy Is-Ganghellor y Cyfadran/Pennaeth yr Adran Gwasanaeth Proffesiynol ar gael, dylid ymgynghori â'r dirprwy sydd wedi'i awdurdodi, a sicrhau ei gytundeb.

4.2.1.4 Dylid trafod materion megis goruchwyllo a chyfyngu'r person ifanc, a'r hyn y dylid ei wneud mewn argyfwng, megis tân.

4.2.1.5 Cafwyd nifer o achlysuron pan oedd myfyrwyr/staff o'r farn mai dod â phlant ifainc, a babanod yn arbennig, i'r gwaith oedd yr unig ddewis iddynt, ond wrth ymchwilio ymhellach fe welir yn aml nad yw hynny'n wir a bod modd gwneud trefniadau eraill sy'n fwy boddhaol, e.e. gweithio o gartref.

4.3 Dylid hysbysu'r holl bartïon perthnasol o'r gweithdrefnau mewn argyfwng.

4.4 Rhaid i drefnwyr digwyddiadau gael manylion cyswllt rhieni a/neu warcheidwaid y bobl ifainc sydd dan eu gofal.

5.0 Rhesymau dros gael Pobl Ifainc ym Mhrifysgol Aberystwyth:

5.1 "Ardaloedd cyhoeddus" – e.e. Canolfan y Celfyddydau (Adran 10 ac 11)

5.2 Profiad gwaith (Adran 12)

5.3 Pobl ifainc staff y mae'n rhaid iddynt fyw mewn neuadd swyddogol

5.4 "Diwrnodau agored" a digwyddiadau tebyg (Adran 13)

5.5 Digwyddiadau cymdeithasol mewn adeiladau/ar dir PA – e.e. partïon Nadolig (Adran 13)

5.6 Testun astudio- e.e. Seicoleg (Adran 14)

5.7 Yn llety'r Brifysgol yng nghwmni rhiant, gwarcheidwad neu oedolyn cyfrifol

5.8 Rhiant/rhieni, neu warcheidwaid, sy'n aelod o staff neu'n fyfyrwr, yn dod â'r plentyn i'r ysgol/swyddfa, trwy ddewis, oherwydd sefyllfa brys

- 5.9 Aros, er enghraifft, ar ôl ysgol, ar gyfer rhiant, gwarcheidwad neu rywun arall
- 5.10 Tresmaswyr (Adran 17)
- 5.11 Ymweliadau gan Ysgolion

6.0 Ysgolion Preswyl/Teithiau Ysgolion/Cynlluniau Prifysgol (y rhai hynny sy'n astudio ar gyfer gradd) (Adran 18)


- 6.1 Arall (Adran 19)

7.0 Ardaloedd Dim Mynediad:

- 7.1 Ni ddylai pobl ifainc fynd i'r ardaloedd canlynol oni bai fod digwyddiad wedi'i drefnu a'u bod dan oruchwyliaeth/ynghwmni unigolyn priodol a digonol:
 - 7.1.1 Labordai (ac eithrio ystafelloedd gweithfannau cyfrifiadurol)
 - 7.1.2 Gweithdai
 - 7.1.3 Ceginau
 - 7.1.4 Ardaloedd sy'n cael eu rhestru yn 'ardaloedd peryglus'
 - 7.1.5 Barrau
- 7.2 Ni ddylid caniatáu i bobl ifainc gerdded drwy adeiladau ar eu pennau eu hunain; dylid eu casglu o fan addas a benderfynwyd ymlaen llaw, ar adeg benodol a sicrhau eu bod yn cael eu goruchwyllo drwy'r adeg gan oedolyn cyfrifol.

8.0 Gweithgareddau cyfyngedig:

- 8.1 Ni ddylai pobl ifainc wneud unrhyw weithgareddau lle byddant yn dod ar draws yr isod:
 - 8.1.1 Ymbelydredd
 - 8.1.2 Lefelau sŵn sy'n uwch na'r gwerth gweithredu cysylltiad is (\bar{x} 80 dB/y diwrnod neu wythnos)
 - 8.1.3 Dirgryndod
 - 8.1.4 Sylweddau gwenwynig
 - 8.1.5 Tymheredd eithafol
 - 8.1.6 Laser
 - 8.1.7 Offer pweredig
 - 8.1.8 Alcohol
- 8.2 Ar gyfer gweithgareddau mewn mannau risg isel, megis swyddfeydd, gyda risgiau a fyddai'n gyfarwydd yn gyffredinol, dylai'r trefniadau presennol fod yn ddigonol i ganiatáu i'r person ifanc ddechrau ar y gweithgareddau. Ond dylid adolygu'r asesiadau risg cyn i'r gweithgarwch ddigwydd.
- 8.3 Mewn mannau sy'n llai cyfarwydd i bobl ifainc, dylid gwneud trefniadau i reoli'r risgiau. Dylai hynny gynnwys cyflwyniad i'r safle, ymglyfarwyddo, goruchwyllo a chyfarpar diogelu personol yn unol â'r hyn a nodir mewn asesiad risg.
- 8.4 Ar gyfer gweithgareddau ac ardaloedd risg uchel, e.e. mewn amaethyddiaeth, dylid cwblhau asesiad risg manwl a phenodol ar gyfer tasgau gofynnol yr unigolyn. Dylai hynny gynnwys rheolaeth y tasgau hynny, cyfarwyddyd, hyfforddiant, goruchwyliaeth ac adolygu.


- 
- 8.5 Dylai fod terfyn oedran ar gyfer gweithgareddau penodol, er enghraifft, ambell gyfarpar gwaith coed. Ni ddylid caniatáu i unigolyn dan y lleiafswm oedran ddefnyddio'r cyfarpar.
 - 8.6 Ni all pobl ifainc yrru cerbydau sy'n eiddo i Brifysgol Aberystwyth.

9.0 Asesiadau Risg:

- 9.1 Mae'r polisi hwn, yn unol â Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith (1999), yn cyflwyno gofyniad cyffredinol i gynnal asesiad risg. Dylai nodi peryglon sy'n gysylltiedig â phobl ifainc yn y Cyfadran / Adran y byddant yn mynd iddi a sicrhau bod mesurau rheoli digonol yn eu lle i wneud yn sicr eu bod yn ddiogel.
- 9.2 Mae'r peryglon sy'n gysylltiedig â phobl ifainc ar dir PA yn ymwneud â dirnadaeth unigolion o risg a'r peryglon cynhenid sy'n gysylltiedig â gweithgareddau ac ymrwymadau'r Sefydliadau.
- 9.3 Dylai'r asesiadau risg ystyried y peryglon sy'n gysylltiedig â gweithgareddau'r Cyfadran neu'r Adran, ei hamgylchfyd a'r potensial i unigolion gael niwed neu fod mewn perygl.
- 9.4 Rhaid i'r asesiadau risg ystyried diffyg profiad a diffyg ymwybyddiaeth o risgiau posibl, ac anaeddfedrydd pobl ifainc ym mhob achos a ragwelir.
- 9.5 Rhaid i asesiadau risg ystyried yr isod:
 - 9.5.1 O dan ba amgylchiadau y gellir caniatáu i bobl ifainc fod mewn adeilad(au) sy'n eiddo i'r Cyfadran neu'r Adran ac ar weithgareddau a gynhelir oddi ar y safle, ond dan arweiniad yr Cyfadran neu'r Adran.
 - 9.5.2 Lefel y goruchwylio gan oedolyn, yn cynnwys eu profiad a'u galluoedd. Dylai cymarebau oedolion/pobl ifainc adlewyrchu'r lefel o gymorth sydd ei hangen i wacáu a rheoli pobl ifainc yn ddiogel pe bai argyfwng, yn ogystal â goruchwylio ymweliad neu weithgarwch; Nid y gyfraith sy'n pennu'r gymhareb hon ond dylid rhoi ystyriaeth i'r gweithgaredd(au) sy'n cael eu cynnal, ac oed ac aeddfedrydd yr unigolion.
 - 9.5.3 Trefniadaeth prosesau a gweithgareddau lle gall unigolion gael eu heffeithio.
 - 9.5.4 Is-adeiledd a chynllun yr ardal neu'r man gweithio.
 - 9.5.5 Manlder y wybodaeth iechyd a diogelwch sydd wedi'i darparu/a fydd yn cael ei darparu i'r bobl berthnasol.
 - 9.5.6 Ardaloedd gwaharddedig.
 - 9.5.7 Nodweddion ffisegol ardal neu weithgaredd neu gyfarpar sydd i'w defnyddio. Dylid hefyd ystyried yr eitemau hynny mewn ardaloedd cyffredin a allai beri niwed.
 - 9.5.8 Nifer y bobl ifainc a ganiateir.
 - 9.5.9 Trefniadau cymorth cyntaf a staff hyfforddedig.
 - 9.5.10 Trefniadau brys a gweithdrefnau ar gyfer gwacáu.
 - 9.5.11 Y pwrpas a'r angen ar gyfer caniatáu i bobl ifainc ddod ar dir PA.

10.0 Pobl Ifainc mewn Ardaloedd "Cyhoeddus":

- 10.1 Dylai pob ardal y gall pobl ifainc ddod iddynt fel "pobl gyhoeddus", megis y Ganolfan Chwaraeon a Chanolfan y Celfyddydau, roi ystyriaeth i'w hanghenion penodol eu hunain.

- 
- 10.2 Dylid llunio asesiadau risg penodol ar gyfer digwyddiadau "cyhoeddus" a'u cysylltu â'r argymhellion yn Adran 9.
 - 10.3 Mae'r ardaloedd hyn o dan yswiriant atebolrwydd cyhoeddus PA.

11.0 Gweithgareddau a Dosbarthiadau PA sydd wedi'u hanelu ar gyfer Pobl Ifainc (yn cynnwys y rhai hynny sy'n astudio ar gyfer graddau):

- 11.1 Dylai'r bobl hynny sydd wedi'u cyflogi gan Brifysgol Aberystwyth i hyfforddi dosbarth neu weithgaredd sydd wedi'u hanelu ar gyfer pobl ifainc fod wedi'u cyflogi yn unol â "Pholisi Diogelu Pobl sy'n Agored i Niwed" Adnoddau Dynol PA, yn cynnwys gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.
- 11.2 Dylai pob gweithgaredd ym Mhrifysgol Aberystwyth ddigwydd yn amodol ar asesiadau risg penodol yn ôl Polisi Iechyd a Diogelwch PA.
- 11.3 Bydd cyfrifoldebau sydd wedi'u hadnabod ar gyfer rheoli risgiau wedi'u nodi yn ysgrifenedig ac wedi'u cyfathrebu i'r bobl berthnasol.
- 11.4 Darperir hyfforddiant angenrheidiol ar gyfer y sawl sy'n rhedeg y gweithgaredd neu'r dosbarth.

12.0 Pobl Ifainc sy'n gwneud Profiad Gwaith:

- 12.1 Dylai lleoliadau o'r fath gael eu cydlynu drwy Adran Adnoddau Dynol PA. Ni ddylid gwneud trefniadau ar gyfer profiad gwaith heb fod yr Adran hon yn gwybod ac yn cytuno. Rhaid cydymffurfio â'r holl reoliadau, er enghraifft, y rhai hynny sy'n diffinio cyfyngiadau o ran oriau gwaith.
- 12.2 Rhaid i aelodau o staff sy'n cael eu penodi i swyddi a all gynnwys gweithio gydag oedolion agored i niwed a/neu blant, gael eu gwirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.
- 12.3 Rhaid cyflwyno'r holl asesiadau risg angenrheidiol a/neu unrhyw newidiadau a wnaed i ddogfennau'r asesiadau a'r trefniadau presennol.
- 12.4 Rhaid cynnal asesiadau risg penodol yn unol ag Adrannau 7 ac 8.
- 12.5 Dylid hysbysu rhieni neu warcheidwaid y person ifanc o ganlyniad yr asesiadau risg a'r hyn a wneir i ddiogelu'r plentyn a sicrhau ei iechyd a'i ddiogelwch.
- 12.6 Lle bo angen, dylai'r unigolyn fynychu sesiwn cyflwyno safonol i staff gan Adnoddau Dynol er mwyn ymgyswddo â pholisïau a gweithdrefnau PA.

13.0 Diwrnodau Agored a Digwyddiadau Tebyg, yn cynnwys Gweithgareddau Cymdeithasol:

- 13.1 Rhaid i oedolyn cyfrifol gyfyngu a goruchwyllo'r bobl ifainc drwy'r adeg.
- 13.2 Dylai mynediad i risiau, lifftiau, labordai, ceginau, barrau, gweithdai, cartrefi anifeiliaid ac ardaloedd peryglus eraill gael ei gyfyngu yn ôl yr angen.
- 13.3 Dylid cyfathrebu'r holl wybodaeth iechyd a diogelwch berthnasol, cyn belled ag sy'n rhesymol yn ymarferol, i ymwelwyr o'r tu allan i'r brifysgol, beth bynnag eu hoed; mae hynny'n cynnwys arwyddion, posteri a sesiynau briffio ar ddiogelwch.
- 13.4 Dylid paratoi asesiadau risg ar gyfer yr holl weithgareddau, gan gymryd yn ganiataol y bydd pobl ifainc yn bresennol.



14.0 Pobl Ifainc yn Destunau Astudio:

- 14.1 Ni all ymchwil sy'n defnyddio neu'n ymwneud â phobl ifainc ddechrau heb ganiatâd pwyllgor moeseg y gyfadran berthnasol a'r cynrychiolwyr priodol o blith y rheolwyr.
- 14.2 Dylid cynllunio pob ymchwil yn unol â Pholisi Moeseg Ymchwil PA.
- 14.3 Dylid paratoi asesiad risg boddhaol a'i gyfathrebu i'r holl bartïon. Rhaid rhoi'r holl fesurau rheoli yn eu lle.
- 14.4 Rhaid sicrhau caniatâd ysgrifenedig rhiant neu warcheidwad cyn dechrau ar y gwaith ymchwil.
- 14.5 Rhaid i aelodau o staff sy'n cael eu penodi i swyddi a all gynnwys gweithio gydag oedolion agored i niwed a/neu blant gael eu gwirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

15.0 Yn ystod Gwaith Adeiladu:

- 15.1 Mae gan Brifysgol Aberystwyth raglen fyw o godi adeiladau newydd ac adnewyddu hen adeiladau. Gall gwaith o'r fath olygu peryglon ychwanegol i bobl ifainc. Rhaid i asesiadau risg ar gyfer presenoldeb y cyfryw unigolion gael eu hadolygu yn sgil gwaith o'r fath a sicrhau bod trefniadau penodol ar gyfer rhwystro mynediad yn eu lle cyn i'r gwaith ddechrau.

16.0 Pobl Ifainc Anawdurdodedig:


- 16.1 Bydd pobl ifainc yn aml yn croesi ar draws tiroedd PA. Rhaid gwneud yn siŵr felly fod pob dim sy'n rhesymol ymarferol wedi ei wneud i sicrhau eu diogelwch wrth iddynt groesi tir PA.

17.0 Tresmaswyr:

- 17.1 Mae gan Brifysgol Aberystwyth ddyletswydd i ofalu am dresmaswyr yn ôl Deddf Atebolrwydd Meddianwyr, 1984. Lle bo'n amhosibl, felly, i rwystro mynediad anawdurdodedig, rhaid cymryd pob gofal rhesymol i sicrhau nad yw tresmaswyr mewn perygl.

18.0 Ysgolion Preswyl/Teithiau Ysgolion/Cynlluniau'r Brifysgol (y rhai hynny sy'n astudio ar gyfer gradd)

- 18.1 O dan Adran 4 y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc, 1974, mae Prifysgol Aberystwyth yn gyfrifol am ddarparu llwybrau mynediad ac ymadael digonol i'r safle a sicrhau amgylchedd diogel ac addas.
- 18.2 Nid oes angen i bobl ifainc ar ymweliad preswyl fod yng nghwmni rhiant/gwarcheidwad, ond, rhaid sicrhau caniatâd ysgrifenedig i aros a defnyddio cyfleusterau a gwasanaethau Prifysgol Aberystwyth cyn y digwyddiad.
- 18.3 Os bydd cyfnodau preswyl yn cael eu trefnu drwy fudiad allanol (hynny yw nid ysgol haf breswyl a gynigir gan y Brifysgol), rhaid darparu goruchwyliaeth allanol; gall hynny gynnwys lefelau o oruchwyllo o bell fel rhan o'r rhaglen ddatblygu.
- 18.4 Rhaid nodi lefelau'r goruchwyllo sy'n angenrheidiol yn yr asesiadau risg cysylltiedig a'r gweithdrefnu gweithredu safonol; rhaid i'r rhain gael eu darparu i gynrychiolydd o Brifysgol Aberystwyth, er gwybodaeth, ac i'w cymeradwyo ar gyfer y digwyddiad.

- 
- 18.5 Ar gyfer digwyddiadau preswyl sy'n cael eu trefnu gan Brifysgol Aberystwyth, rhaid cymryd y camau priodol a'u nodi drwy asesiad risg, i ddarparu goruchwyliaeth ddigonol ar gyfer y gweithgaredd a'r holl ofynion i gydymffurfio â hwy dan Adran 9 y Polisi hwn.
 - 18.6 Rhaid i bobl sy'n byw ar dir Prifysgol Aberystwyth (mewn ardaloedd preswyl a dibreswyl) ac yn defnyddio cyfleusterau a gwasanaethau Prifysgol Aberystwyth gydymffurfio â holl Bolisiau, arferion, gweithdrefnau a rheolau'r Brifysgol.

19.0 Sefyllfaoedd Eraill:

- 19.1 Rhaid dilyn Polisi Iechyd a Diogelwch PA a holl bolisiau perthnasol eraill PA drwy'r adeg a chydymffurfio â Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc, 1974.
- 19.2 Nid yw'r argymhellion yn yr Adrannau blaenorol yn gynhwysfawr ac felly maent yn berthnasol i ystod o sefyllfaoedd eraill nas amlinellir yn benodol yn y ddogfen hon.

20.0 Gweithdrefnau a Pholisiau Eraill

Mae'n bosib y bydd polisiau a gweithdrefnau lleol yn ategu'r polisi hwn, a pholisiau eraill iechyd, diogelwch a'r amgylchedd. Gellir cael rhagor o wybodaeth, os oes angen, drwy Adran Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd PA.

21.0 Dogfennau Atodol

Polisi Diogelu Pobl sy'n Agored i Niwed:

<https://www.aber.ac.uk/en/media/departmental/humanresources/Diogelu-Unigolion-Agored-i-Niwed.pdf>